# Cynllun Blynyddol

2023-2024









Estyn

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon/cyhoeddiad hwn yn gywir adeg ei chyhoeddi/gyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r cynnwys at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon neges e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae holl gyhoeddiadau Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl ddogfen benodol / cyhoeddiad penodol.**

# Cynnwys


**Rhagair y Prif Arolygydd** **1**

**Ein gweledigaeth hirdymor** **3**

**Ein blaenoriaethau ar gyfer 2023-2024** **8**

**Cyflawni ein hamcanion strategol** **9**

Amcan strategol 1: Darparu atebolrwydd cyhoeddus ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru 10

Amcan strategol 2: Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru 14

Amcan strategol 3: Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru 17

Sut rydym yn cyflawni ein gwaith 19

**Atodiad: Gweithgarwch arolygu cynlluniedig 2023-2024** **25**

## Rhagair y Prif Arolygydd




Yng Nghymru, nid yw addysg a hyfforddiant byth yn sefyll yn llonydd – ac nid ydym ninnau ychwaith. Mae'n datblygu'n gyson ac mae Estyn yn gwneud hynny hefyd.

Erbyn diwedd tymor yr haf 2024, byddwn wedi gorffen y cylch arolygu cyfredol. Felly, nawr yw'r amser i ni fyfyrio ac adolygu ffocws ein gwaith. Mae'n bryd i ni ganolbwyntio ar y meysydd hynny sy'n sbarduno'r gwelliant mwyaf.

Ond rydym yn adeiladu ar sylfaen gadarn. Fe wnaethoch chi ymateb yn gadarnhaol i'n trefniadau arolygu diwygiedig ar gyfer ysgolion ac UCDau a gyflwynwyd ym mis Medi 2022 – newidiadau a wnaed i gyd-fynd â newidiadau ym myd addysg. Mae mewnwelediadau hefyd yn awgrymu'n gryf fod cael gwared ar farnau crynodol a'n hymagwedd gyffredinol at arolygu wedi helpu o ran ansawdd y drafodaeth a gawn â'n darparwyr erbyn hyn.

Wrth edrych yn ein blaenau at 2024, rydym yn dylunio ymagwedd at arolygu sy'n meithrin gallu ac yn canolbwyntio ar gael yr effaith fwyaf lle mae ei hangen fwyaf. Rydym yn bwriadu creu lle yn ein rhaglen arolygu i ystyried ffyrdd newydd o gefnogi darparwyr. I ddefnyddio ein harbenigedd eang i gynyddu ein gwerth i'r system addysg a hyfforddiant. Yn rhan o hyn, rydym yn awyddus i ddatblygu a phrofi ein trefniadau arolygu newydd â chi. Byddwn yn ymgysylltu â'n holl randdeiliaid ar hyd y broses ddatblygu.

Byddwn yn cydweithio â phartneriaid yn y tirlun ehangach. Wrth i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil gael ei greu, byddwn yn cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru i ystyried sut byddwn yn arolygu addysg gychwynnol athrawon ac addysg bellach a hyfforddiant. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar bwysigrwydd lleddfu effaith tlodi ar ein cymunedau ac yn cefnogi uchelgais y llywodraeth i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Byddwn hefyd yn edrych ar sut gallwn gymryd camau i gyflawni Cymru wrth-hiliol trwy ein gwaith arolygu a thrwy wella amrywiaeth ein gweithlu ein hun.

Ochr yn ochr â'r datblygiadau hyn, byddwn yn parhau i wneud iawn am yr arolygiadau a fethwyd yn ystod y pandemig ac yn gweithio i arolygu pob ysgol erbyn mis Gorffennaf 2024. Byddwn hefyd yn parhau â'n gweithgarwch dilynol i ddarparwyr y mae angen cefnogaeth bellach arnynt. Mae lefelau uchel o gysondeb a chadernid yn ein gwaith yn flaenoriaeth – a byddwn yn parhau i fonitro sampl o arolygiadau er mwyn sicrhau hyn. Mae rhannu arfer effeithiol ac adnoddau i gefnogi gwelliant ar draws addysg a hyfforddiant yn bwysig o hyd. Byddwn hefyd yn cyhoeddi

adroddiadau ar ystod eang o themâu sy'n ymchwilio i faterion cyfredol ac yn argymell i ymarferwyr, darparwyr a'r Gweinidog sut y gellir gwella addysg a hyfforddiant. Mae chwilio am ffyrdd newydd ac arloesol i gyfleu canfyddiadau ein hadroddiadau yn flaenoriaeth o hyd.

Ni ellir cyflawni unrhyw rai o'n cynlluniau ar gyfer arolygu a sicrwydd o ansawdd uchel heb fod â'r staff a'r adnoddau cywir. Dros y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn buddsoddi yn ein staff: datblygiad proffesiynol a phersonol, iechyd a lles. Fe wnawn yn siŵr ein bod yn alluog yn ddigidol fel y bydd galw newydd ar ein gwaith. Rydym hefyd yn bwriadu cynnwys ymarferwyr cyfredol ymhellach fel arolygwyr cymheiriaid ar weithgarwch arolygu, rhoi mewnwelediad a phrofiad i uwch arweinwyr o ysgolion a darparwyr eraill ac elwa ar ein hyfforddiant blynyddol. Serch hynny, bydd cyllid yn dynn a byddwn yn parhau â'n polisi o reolaeth ariannol gadarn er mwyn ystyried fforddiadwyedd tymor byr a thymor hir a chyflawni gwerth am arian.

Mae popeth rydym wedi'i gyflawni yn digwydd oherwydd gwaith caled ein staff – hoffwn ddiolch yn ddiffuant iddynt am eu hymrwymiad.

Dysgwyr o bob oed fydd ein blaenoriaeth bob amser. Mae ein rôl mewn hwyluso gwelliant wrth wraidd y flaenoriaeth honno ac rwy'n ymrwymo i sicrhau bod Estyn yn gwneud yr effaith fwyaf cadarnhaol ag y gall. Hoffwn ddiolch i addysgwyr ledled Cymru am eu hymdrechion a'u hysbrydoliaeth a byddwn yn parhau i ddysgu gan y goreuon a rhannu'r arfer honno wrth fynd yn ein blaenau.



**Owen Evans**

Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru



## Ein gweledigaeth hirdymor

Mae arolygu'n chwarae rôl ganolog mewn gwella ansawdd addysg a hyfforddiant i'n plant, pobl ifanc a dysgwyr gydol oes.

# Cenhadaeth a gweledigaeth

Ein **gweledigaeth** yw gwella ansawdd addysg a hyfforddiant, a deilliannau i'r holl ddysgwyr yng Nghymru

Ein **cenhadaeth** yw cynorthwyo darparwyr addysg a hyfforddiant i ddatblygu diwylliant o hunanwella a dysgu trwy ein cyngor, arolygu a meithrin gallu

# Hamcanion strategol

**Darparu atebolrwydd cyhoeddus** ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau darpariaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru

**Llywio datblygiad polisi** cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru a'i swyddogion

**Meithrin gallu** i wella cyflwyno system addysg a hyfforddiant yng Nghymru

# Gwerthoedd

- Rhoi dysgwyr wrth wraidd ein gwaith
- Gwrando, dysgu a chydweithio ag eraill
- Gweithredu'n ddidwyll, yn deg ac ag uniondeb
- Dangos arweinyddiaeth a gwaith tîm effeithiol
- Hybu iechyd, lles a chydraddoldeb ym mhopeth a wnawn
- Gwerthfawrogi a pharchu pobl a'u gwaith

Ein gweledigaeth yw gwella ansawdd addysg a hyfforddiant a deilliannau i bob dysgwr yng Nghymru. Mae dysgwyr wrth wraidd ein gwaith ac rydym yn chwilio'n barhaus am ffyrdd i wella ein hymgysylltiad â nhw. Ein cenhadaeth yw cynorthwyo darparwyr addysg a hyfforddiant i ddatblygu diwylliant o hunanwella a dysgu trwy ein cyngor, arolygu a meithrin gallu.

Mae ein hamcanion strategol yn diffinio'n fanylach yr hyn y gallwn ei gynnig yn unigryw i helpu hyrwyddo rhagoriaeth yn y system ac mae ein gwerthoedd yn adlewyrchu'r diwylliant sydd wrth wraidd ein gwaith. Mae adran ddiweddarach yn y cynllun hwn yn esbonio ein hamcanion strategol yn fanwl, ynghyd â sut rydym yn cyflawni ein gwaith.

**Arolygu ar gyfer y dyfodol (2024-2030)**

Mae addysg yng Nghymru yn newid ac, yn Estyn, rydym yn esblygu ein hymagwedd at ein gwaith i adlewyrchu'r tirlun newidiol hwn. Yn benodol, byddwn yn parhau i gynorthwyo i roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith ac yn gweithio i fodloni anghenion y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil orau.

O fis Medi 2024 ymlaen, byddwn yn dechrau cylch arolygu newydd yn y rhan fwyaf o sectorau, felly nawr yw'r amser i ni fyfyrio ac adolygu, er mwyn canolbwyntio ar gael yr effaith fwyaf lle mae ei hangen fwyaf.

Ein nod ar gyfer y dyfodol yw llunio trefniadau arolygu sy'n meithrin gallu, sy'n cael yr effaith fwyaf lle mae ei hangen fwyaf, a darparu arolygu o anhawdd uchel sy'n amserol ac yn cynnig adborth mwy rheolaidd.

Rydym yn arolygu ar draws ystod o sectorau a bydd ymagweddau gwahanol yn berthnasol yn ôl amgylchiadau amrywiol. Fodd bynnag, caiff y newidiadau a wnawn i arolygu eu llywio gan yr egwyddorion cyffredinol canlynol:

- adborth a sicrwydd mwy rheolaidd
- cydbwyso/ailgydbwyso arolygiadau darparwyr unigol a gwella'r system gyfan
- meithrin perthnasoedd adeiladol
- bod yn ymatebol trwy allu hyblyg
- mae trefniadau'n gyflawnadwy ac yn gynaliadwy

Trwy adeiladu ar ein hegwyddorion arolygu byddwn:

- yn dwyn ymagwedd at arolygu sydd wedi'i harwain gan ddysgwyr
- lle y bo'n berthnasol, yn canolbwyntio'n gryf ar ansawdd ac effeithiolrwydd addysgu a dysgu
- lle y bo'n berthnasol, yn ystyried popeth yn nogfennau arweiniad 'beth' a 'sut' rydym yn arolygu, ond yn adrodd ar y prif gryfderau a gwendidau yn unig
- yn sicrhau bod pob arolygiad yn canolbwyntio ar y darparwr penodol ac yn addasu ein hymagweddau'n unol â hynny
- yn defnyddio ystod o fethodolegau ac ymagweddau arolygu teilwredig sydd wedi'u llunio'n bwrpasol yn ôl cyd-destun unigryw y darparwr, er mwyn gwerthuso ehangder gwaith y darparwr yn gadarn ac yn deg
- yn mabwysiadu ymagwedd adeiladol sy'n golygu bod y rhyngweithiad â'r darparwr yn brofiad dysgu proffesiynol i'w staff a'r tîm arolygu yn ei gyfanrwydd, er enghraifft wrth roi ystyriaeth addas i effaith y pandemig diweddar

Yn ogystal, bydd arolygwyr:

- yn sicrhau bod arolygu'n ymatebol i anghenion pob dysgwr
- yn sicrhau bod gwerthusiadau'n sicr, yn ddibynadwy, yn ddilys ac wedi'u seilio ar

dystiolaeth uniongyrchol
- yn cynnwys y darparwr yn llawn yn y broses arolygu, gan gynnwys y cyfle i'r darparwr ddewis enwebai
- yn defnyddio blaenoriaethau gwella'r darparwr fel man cychwyn ar gyfer yr arolygiad
- yn nodi meysydd allweddol i ymchwilio iddynt er mwyn gwerthuso dilysrwydd eu canfyddiadau
- yn cynnwys arolygwyr cymheiriaid yn y broses arolygu
- yn gofyn am gyn lleied â phosibl o ddogfennau a pharatoadau gan y darparwr
- yn cael safbwynt dysgwyr a rhanddeiliaid eraill
- yn cymhwyso egwyddor cydraddoldeb ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg i'n holl waith arolygu

Bydd trefniadau arolygu'n datblygu ar gyfraddau gwahanol ar draws pob sector rydym yn ei arolygu. Bydd sectorau penodol, fel y sector nas cynhelir, addysg gychwynnol athrawon a gwasanaethau addysg llywodraeth leol yn gweld mwy o esblygiad o ran yr hyn rydym yn ei ddarparu ar hyn o bryd. Mewn sectorau eraill, fel ysgolion, UCDau a'r sector Cymraeg i Oedolion, mae'r diwygiadau rydym yn eu datblygu yn cynrychioli mwy o wyriad oddi wrth ein harferion cyfredol.

Mae ein cynllun pontio cryno yn amlinellu camau allweddol ein rhaglen newid o 2023 ymlaen, wrth i ni ddatblygu ein trefniadau arolygu newydd:




Mae casglu gwybodaeth wedi cynnwys edrych ar arfer orau, cymaryddion rhyngwladol, sicrwydd ac ymgysylltu â'n staff. Er y byddwn yn dysgu ac yn mireinio bob amser, rydym ar y cam dylunio a modelu ar hyn o bryd.

Rydym yn awyddus i ddatblygu a phrofi ein trefniadau wrth iddynt ddod i'r amlwg â'n rhanddeiliaid a sicrhau ymgysylltiad trwy gydol y broses. Bydd dau ymarfer ymgysylltu ffurfiol yn cael eu cynnal yn ystod tymor yr haf a thymor yr hydref 2023. Rydym yn bwriadu treialu fersiynau cynnar o'r modelau arolygu gydag ychydig o ddarparwyr yn ystod tymor yr haf a thymor yr hydref 2023. Bydd adborth o'r treialon hyn yn llywio'r cam datblygu nesaf. Ein bwriad yw cynnal arolygiadau peilot ffurfiol i brofi a mireinio ein trefniadau newydd yn ystod tymor y gwanwyn 2024. Bydd ymgysylltiad yn barhaus i staff mewnol a byddwn yn hyfforddi ychydig o arolygwyr allanol ar gyfer arolygiadau peilot yn nhymor yr hydref 2023, cyn cyflwyno hyfforddiant trosi i bob arolygydd allanol o dymor yr haf 2024 ymlaen.

Yn nhymor yr haf 2024, byddwn yn gorffen ein cylch arolygu cyfredol ac yn pontio i'r trefniadau newydd yn barod i'w rhoi ar waith yn ystod hydref 2024. Bydd ein cylch arolygu newydd o 2024 hyd 2030 yn gyfnod atgyfnerthu ar gyfer Estyn ar ôl cyfnod dwys o newid i ni a byd addysg yn ehangach. Byddwn yn parhau i gefnogi Llywodraeth Cymru a'n holl randdeiliaid wrth i'r Cwricwlwm i Gymru barhau i gael ei roi ar waith ac wrth i ddiwygiadau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 barhau i gael eu hymwreiddio.

Rydym yn gweithredu o fewn fframwaith ehangach o nodau a pholisi’r llywodraeth. Byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod ein gwaith yn cyd-fynd â pholisi Llywodraeth Cymru i gyflawni miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a’r weledigaeth i gyflawni Cymru wrth-hiliol erbyn 2030, a chwarae ein rhan mewn cyflawni ansawdd bywyd gwell a pharhaus i ni gyd, fel yr amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

Wrth i ni barhau i gynnig atebolrwydd cyhoeddus i’n rhanddeiliaid, bydd ein trefniadau arolygu newydd yn fwy cynnil ac yn canolbwyntio mwy ar y meysydd pwysicaf sy’n sbarduno gwelliant. Ein nod yw creu lle yn ein rhaglen waith i gynorthwyo darparwyr ymhellach, gan adeiladu ar ein strategaeth o ymweliadau ymgysylltu a gafodd groeso mawr, a gynhaliwyd yn ystod y pandemig, a’n gwaith i rannu ein tystiolaeth o arolygiadau a gwaith thematig.

Ein nod yw parhau i rannu arfer effeithiol ond cael mwy o effaith trwy ein gwaith, gydag adroddiadau mwy hygyrch a defnyddiol, gan gynnwys adroddiadau arolygu a thematig ac Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Fawrhydi. Bydd ein Hadroddiad Blynyddol 2022-2023 yn cynnwys dadansoddiad o’n hargymhellion arolygu a holiaduron a’r hyn y mae’r darparwyr gorau yn ei wneud i fynd i’r afael â’r agweddau cysylltiedig. Bydd hefyd yn canolbwyntio ar waith darparwyr i gefnogi grwpiau bregus, fel ffoaduriaid a cheiswyr lloches, gyda’u haddysg a hyfforddiant ledled Cymru.

Byddwn yn parhau i adeiladu a datblygu perthynas â darparwyr a chyrff addysgol ar draws y sectorau rydym yn eu harolygu, cyfrannu at rwydweithiau cenedlaethol a defnyddio ein harbenigedd eang i nodi tueddiadau sy’n dod i’r amlwg, cryfderau a heriau i wireddu ein gweledigaeth i wella ansawdd addysg a hyfforddiant a deilliannau i bob dysgwr yng Nghymru.

## Ein blaenoriaethau ar gyfer 2023-2024



Yn ogystal â'n gweithgareddau arferol sy'n cael eu cyflawni yn erbyn ein hamcanion strategol sydd wedi'u hamlinellu yn yr adran nesaf, rydym wedi nodi meysydd gwaith lle gallwn wneud yr effaith fwyaf dros y flwyddyn sydd i ddod:

- cwblhau ein fframwaith arolygu cyfredol a chanolbwyntio ar ein trefniadau arolygu nesaf ar gyfer 2024 (ein prif raglen waith ar gyfer y flwyddyn neu ddwy nesaf)
- strategaeth i rannu arfer effeithiol ac adnoddau i gefnogi gwelliant ar draws y system addysg a hyfforddiant
- strategaeth pobl, sy'n mynd i'r afael ag arweinyddiaeth a datblygu, denu, dethol, datblygu a chadw gweithlu amrywiol, cynllunio ar gyfer olyniaeth, diwylliant, cyflog a lles ar gyfer pob cydweithiwr
- strategaeth leoli ar gyfer arolygwyr allanol sydd â ffocws penodol ar arolygwyr cymheiriaid
- strategaeth i ddatblygu ein trefniadau gweithio â'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, sydd â'r nod o hyrwyddo mwy o gydlyniant a chydweithio ar draws darpariaeth ôl-16
- strategaeth trawsnewid digidol i fanteisio i'r eithaf ar ein gallu digidol er mwyn ymateb i bwysau gweithredol cyfnewidiol a gofynion busnes sy'n dod i'r amlwg; a hefyd i ddatblygu system rheoli adnoddau ystwyth ac ymatebol ac optimeiddio ein systemau rheoli gwybodaeth

Byddwn yn parhau i gydweithio â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill i gefnogi'r gwaith o roi'r Cwricwlwm i Gymru a diwygio Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg ar waith. Byddwn hefyd yn parhau i ganolbwyntio ar waith darparwyr i liniaru effaith amddifadedd a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, diwylliant Cymru a'i chyd-destun hanesyddol yn unol â'n gweledigaeth ar gyfer addysg yng Nghymru. Trwy waith arolygu a thematig, gallwn amlygu a rhannu enghreifftiau o arfer effeithiol a welwn ledled Cymru.

Dysgwyr yw prif ffocws ein gwaith o hyd ac rydym yn chwilio'n barhaus am ffyrdd i wella ein hymgysylltiad â nhw. Gobeithiwn ehangu ar y gwaith hwn yn y dyfodol.

## Cyflawni ein hamcanion strategol

Mae ein hamcanion strategol yn canolbwyntio ar wella deilliannau i ddysgwyr yng Nghymru trwy:

- ddarparu atebolrwydd cyhoeddus ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru
- llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru
- meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru

Mae'r ffordd rydym yn meddwl am ein gwaith – ein meddylfryd – yn ein helpu i:

- sicrhau'r gorau i bob dysgwr
- cynnig cyfle i arweinwyr, athrawon a staff cymorth gyfrannu'n broffesiynol ac yn adeiladol
- rhannu'r hyn rydym wedi'i weld ledled Cymru i gefnogi gwelliant

**Ein Meddylfryd**



## Amcan strategol 1: Darparu atebolrwydd cyhoeddus ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru



Mae deddfwriaeth yn rhoi dyletswyddau a phwerau amrywiol i PAEF i arolygu darparwyr a gwasanaethau addysg yng Nghymru. Mae ein gwaith yma yn ymwneud â rhoi sicrwydd i Weinidogion, rhieni, dysgwyr, gofalwyr, awdurdodau lleol a'n rhanddeiliaid eraill trwy ein gweithgarwch arolygu.

Mae manylion am ein prosesau arolygu cyfredol, ein hamserlen arolygu a'n hadroddiadau arolygu i'w gweld ar y dudalen arolygu ar ein gwefan.

Rydym wedi cael adborth cadarnhaol am ein trefniadau arolygu diwygiedig ar gyfer ysgolion ac UCDau a roddwyd ar waith yn 2022 i gyd-fynd â newidiadau i addysg yng Nghymru. Yn benodol, mae cael gwared ar raddau crynodol wedi galluogi darparwyr ac arolygwyr i ganolbwyntio'n fanylach ar gryfderau a meysydd i'w datblygu. Roedd hwn yn newid sylweddol ac yn un sy'n cyd-fynd ag ymdrechion cenedlaethol i ddatblygu system hunanwella. Mae hefyd yn adlewyrchu ein hymrwymiad i gydweithio'n agosach â darparwyr addysg i amlygu arfer orau a chael mwy o ddeialog broffesiynol ar feysydd i'w gwella.

Mae **Atodiad 1** yn amlinellu manylion am ein gweithgarwch arolygu cynlluniedig yn 2023-2024.

Bydd ein gweithgareddau, sy'n cael eu hamlinellu yn y cynllun blynyddol hwn, yn cael eu tanategu gan raglenni gwaith manwl. Rydym yn rheoli rhaglenni gwaith sy'n rhychwantu mwy na blwyddyn ac mae'r cynllun hwn yn adeiladu'n naturiol ar waith blaenorol a chynlluniau ar gyfer gwaith yn y dyfodol.

Fel erioed, rydym yn gweithredu mewn cyd-destun sy'n newid yn gyson, felly bydd angen i ni gadw hyblygrwydd yn ein dull cyflawni a diweddaru'r cynllun hwn yn unol â hynny.

## Arolygiadau craidd

Byddwn:

- yn parhau â'n cyfradd gynyddol o arolygiadau o ysgolion a gynhelir ac ysgolion annibynnol, ac unedau cyfeirio disgyblion, i gwblhau'r cylch arolygu erbyn 2024
- yn parhau â'n gwaith arolygu ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Cymru mewn lleoliadau nas cynhelir ac Archwilio Cymru mewn gwasanaethau addysg llywodraeth leol
- yn parhau i ddarparu arolygiadau o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned, colegau arbenigol annibynnol a darparwyr prentisiaethau dysgu yn y gwaith
- yn parhau i gyflwyno arolygiadau o addysg gychwynnol athrawon yn dilyn arolygiad peilot yn 2022-2023 ac yn parhau i gydweithio'n agos â Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA) ac addasu trefniadau ar ôl cael adborth
- cwblhau ein cylch o arolygiadau o wasanaethau addysg llywodraeth leol a datblygu a pheilota arolygiadau o waith ieuenctid
- yn cynnal arolygiadau craidd yn y sector Cymraeg i oedolion, gan gynnwys arolygiad hydredol o'r ganolfan breswyl genedlaethol (Nant Gwrtheyrn) yn ystod tymor yr haf/hydref 2023

## Gweithgarwch arolygu arall

Byddwn:

- yn cwblhau ein hymweliadau monitro â darparwyr dysgu yn y gwaith rhaglen Twf Swyddi Cymru Plws yn ystod tymor yr haf a pharatoi adroddiad cenedlaethol ar flwyddyn gyntaf y rhaglen
- yn parhau i ymweld ag ysgolion annibynnol i ystyried cofrestriadau newydd ac unrhyw geisiadau am newidiadau sylweddol i gofrestriadau
- yn parhau â'n hymweliadau monitro blynyddol â'r colegau arbenigol annibynnol ac ysgolion annibynnol sy'n cynnig darpariaeth ADY
- yn wyliadwrus yn ein gwaith ac yn parhau i werthuso pa mor dda mae darparwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau mewn modd sy'n diogelu plant ac oedolion bregus, lle bo hynny'n briodol

## Gweithgarwch adeiladu dilynol

Yn ystod arolygiad, rydym yn ystyried a oes angen unrhyw gymorth pellach ar y darparwr. Rydym yn galw hyn yn 'weithgarwch dilynol'. Mae'r gwahanol fathau o 'weithgarwch dilynol' i'w gweld ar y dudalen gweithgarwch dilynol ar ein gwefan.

Byddwn:

- yn parhau â monitro ffurfiol yr holl ddarparwr y mae angen gweithgarwch dilynol arnynt o ganlyniad i arolygiadau craidd
- yn parhau i gymryd rhan yn rhaglen amlasiantaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion uwchradd sy'n peri pryder, gan gynnwys pob ysgol uwchradd sydd yn y categori mesurau arbennig
- yn parhau i gynnig cymorth arolygwyr cyswllt i awdurdodau lleol sy'n peri pryder, gan gynnwys cynnal cynadleddau cynnydd ac ymweliadau monitro, yn ôl y gofyn

## Gwaith ar y cyd â chyrff arolygu

Byddwn:

- yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ac Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi i arolygu dysgu yn y sector cyfiawnder yng Nghymru, gan gynnwys arolygu Timau Troseddau Ieuenctid yng Nghymru
- yn cydweithio ag Ofsted i gynorthwyo, mewn rôl sicrhau ansawdd, ar arolygiadau o brentisiaethau, yn ôl y gofyn
- yn parhau i gydweithio ag arolygwyr o Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS), Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) i gyflawni adolygiad ar y cyd gan arolygiaethau o drefniadau amddiffyn plant (JICPA) a ddarperir gan awdurdod lleol a phartneriaid
- yn parhau â'n harolygiadau o gartrefi diogel i blant gydag Arolygiaeth Gofal Cymru
- yn cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru wrth i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil gael ei greu, gan ystyried y trefniadau arolygu ar gyfer darpariaeth addysg bellach ac addysg uwch a hyfforddiant yn y dyfodol
- yn parhau i gydweithio ag arolygiaethau addysg a hyfforddiant o wledydd cyfagos, ar lefel strategol a gweithredol, gan rannu gwybodaeth a hysbysrwydd yn rheolaidd
- yn parhau i gymryd rhan yn weithredol yng ngweithgareddau Cynhadledd Sefydlog Ryngwladol yr Arolygiaethau i rannu a dysgu oddi wrth arolygiaethau eraill

Yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â chyflawni ein harolygiadau arferol, byddwn yn datblygu ein **fframwaith arolygu newydd** ar gyfer y cylch arolygiadau nesaf a fydd yn dechrau ym mis Medi 2024. Mae ein 'gweledigaeth hirdymor' (uchod) yn rhoi mwy o fanylion.



## Amcan strategol 2: Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru



Rydym yn darparu safbwynt cenedlaethol ar ddarpariaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru trwy'r dystiolaeth eang a gawn o weithgareddau arolygu ac adolygiadau thematig. Mae gennym ddyletswydd statudol hefyd i ddarparu adroddiad blynyddol ar safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Rydym yn chwarae rôl mewn pwyllgorau strategol a gweithgorau, yn ymgysylltu â Gweinidogion Llywodraeth Cymru, swyddogion a rhanddeiliaid eraill, yn rhoi cyngor yn seiliedig ar dystiolaeth ar ddatblygu polisi a rheoleiddio.

Mae Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd 2022-2023 yn crynhoi ein barn ar ansawdd a safonau darpariaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru a bydd yn helpu i lywio datblygiad polisi cenedlaethol yn y dyfodol.

Mae'r eitemau sydd wedi'u cynnwys yn yr adolygiadau thematig ar gyfer 2023-2024 yn adlewyrchu cylch gwaith strategol sy'n canolbwyntio ar y diwygiadau cyfredol ar gyfer gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru, y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg a diwygio addysg a hyfforddiant ôl-orfodol (AHO), ac mae'n cynnwys eitem sy'n canolbwyntio ar ddatblygu'r Gymraeg a ffocws ar gefnogi dysgwyr bregus.

Byddwn yn dechrau gweithio ar saith adroddiad thematig manwl sydd wedi'u cynnwys yn ein cylch gwaith ar gyfer 2023-2024:

- Cwricwlwm i Gymru – pontio
- Cwricwlwm i Gymru – datblygu medrau darllen Cymraeg
- Diwygio ADY – gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg mewn ysgolion (blwyddyn 2)
- Effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol – cymorth, darpariaeth a phontio i addysg gynnar
- Addysg a hyfforddiant ôl-orfodol – asesu dyfnder, ehangder ac effeithiolrwydd rôl y gweithiwr arweiniol i gefnogi pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant ledled Cymru
- Adolygiad o waith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol o ran addysg bellach a

phrentisiaethau (i’w gadarnhau gan LIC)
- Gwerthusiad o’r rhaglen prentisiaethau iau (i’w gadarnhau gan LIC)

Byddwn hefyd yn parhau i roi cyngor parhaus yn seiliedig ar dystiolaeth o arolygiadau, gwaith ymgysylltu a gweithgarwch arall trwy gyfarfodydd â swyddogion Llywodraeth Cymru, cyfraniadau at weithgorau cenedlaethol, y Sgyrsiau Rhwydwaith Cenedlaethol, cyngor ysgrifenedig, arweiniad cyhoeddedig ac adroddiadau. Byddwn hefyd yn darparu ymatebion ymgynghori ar faterion yn ymwneud ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru ac yn cyhoeddi ein hymatebion. Byddwn yn sicrhau bod ein harolygiadau rheolaidd yn cipio’r dystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer y cyngor parhaus hwn ac adroddiadau thematig yn y dyfodol, er enghraifft i ystyried a yw ysgolion ac UCDau yn datblygu cwricwla sy’n adlewyrchu thema drawsbynciol amrywiaeth.

Byddwn hefyd:

- yn cyfrannu at adolygiad cyflym Arolygiaeth Gofal Cymru i benderfynu i ba raddau y mae’r strwythurau a’r prosesau cyfredol yng Nghymru yn sicrhau bod plant y mae angen gofal, cymorth ac amddiffyniad arnynt yn cael eu rhoi’n briodol ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, a’u tynnu oddi arni, pan fydd tystiolaeth ddigonol yn nodi ei bod yn ddiogel gwneud hynny
- yn cyfrannu at gydadolygiad cenedlaethol Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o wasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc

Mae’r llythyr cylch gwaith llawn yr anfonodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg at PAEF i’w weld yma Cylch gwaith blynyddol Estyn: 2023 i 2024.



## Amcan strategol 3 – Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru



Mae ein gweithgarwch arolygu a thematig yn ein rhoi mewn sefyllfa gref i werthuso ansawdd y sector addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae ein sgyrsiau proffesiynol a'n hargymhellion yn helpu i ysbrydoli a chefnogi gwelliant yn y system.

Mae grwpiau fforymau rhanddeiliaid a grwpiau cyfeirio – sy'n benodol i'r sector a grwpiau wedi'u seilio ar brosiectau – yn llywio'r hyn a wnawn ac yn bwysig iawn i ni. Mae gwrando ar eu safbwyntiau i ffwrdd o'r broses arolygu yn rhoi darlun i ni. Byddwn yn gweithio i sicrhau mwy o amrywiaeth ar draws y cynrychiolwyr yn ein grwpiau rhanddeiliaid. Mae arolygwyr cymheiriaid yn amhrisiadwy i ni – maent yn helpu i greu dealltwriaeth a disgwyliadau ar y cyd ar draws addysg a hyfforddiant. Gyda thros 1,000 o arolygwyr cymheiriaid ar draws pob sector, maent yn cael cyfle i weld arfer sy'n wahanol i'w harfer eu hunain – gan hogi eu medrau dadansoddi a'u dealltwriaeth i'w helpu i feithrin gallu ar draws eu sectorau i gefnogi system sy'n hunanwella.

Byddwn yn esblygu ein strategaeth ymgysylltu â rhanddeiliaid i fod yn fwy gweladwy ac yn ymestyn ein dulliau cyfathrebu y tu hwnt i lwybrau traddodiadol i ddefnyddio'r cyfoeth o dystiolaeth a gwybodaeth rydym yn eu casglu i fod o'r budd mwyaf i'n rhanddeiliaid.

Byddwn:

- yn parhau â'n rhaglen o gynadleddau, gweminarau a fforymau eraill i randdeiliaid i wella ein cyrraedd i weithwyr proffesiynol, dysgwyr, rhieni a gofalwyr i sbarduno gwelliant yn y system addysg a hyfforddiant
- yn parhau â'n gwaith â fforymau a grwpiau llywio Llywodraeth Cymru i gydweithio ar ystod o faterion sy'n ymwneud â pholisi ac arfer addysg a hyfforddiant
- yn ceisio adborth gan ein grwpiau cyfeirio amrywiol ar draws ein holl sectorau ac yn cael 'gwiriad o synnwyr a realiti' wrth i ni lunio ymagweddau newydd at ein gwaith
- yn cyflawni ein cynlluniau hyfforddiant diweddaru i Arolygwyr Cofrestredig,

arolygwyr ychwanegol, arolygwyr cymheiriaid, arolygwyr partneriaid gwella awdurdodau lleol ac arolygwyr lleyg

- yn ymestyn ymglymiad ymarferwyr cyfredol fel arolygwyr cymheiriaid mewn gweithgarwch arolygu, gan alluogi uwch arweinwyr i gael profiad gan ddarparwyr eraill a hyfforddi â ni'n flynyddol
- yn peilota rhaglen datblygu arweinyddiaeth i ymarferwyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol i godi eu hymwybyddiaeth o'n gwaith a'u hannog i fod yn arolygwyr cymheiriaid y dyfodol
- yn llunio adroddiadau a deunyddiau ategol addysgiadol a difyr yn benodol ar gyfer grwpiau unigol o randdeiliaid, fel ymarferwyr, dysgwyr, rhieni a gofalwyr
- yn parhau i nodi arfer effeithiol o'n gwaith arolygu a thematig ac yn ystyried y ffyrdd gorau i rannu hyn ar-lein ac mewn cynadleddau
- yn parhau â gwaith ein harolygwyr cyswllt awdurdodau lleol a gwella ysgolion ledled Cymru
- yn parhau â'n gweithdai asesu risg ym mhob awdurdod lleol gyda chydweithwyr o Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru
- yn parhau â gwaith ein harolygwyr cyswllt ôl-16 i ymgysylltu'n rheolaidd â darparwyr addysg bellach, dysgu yn y gwaith a dysgu oedolion yn y gymuned
- yn parhau i ymgysylltu'n rheolaidd â darparwyr dysgu yn y sector cyfiawnder a cholegau arbenigol annibynnol



## Sut rydym yn cyflawni ein gwaith



Mae ein gweithlu'n cynnwys tîm rheoli a staff canolog sy'n gweithredu model gweithio hybrid– gan gyfuno gweithio yn y swyddfa a gartref – ac arolygwyr sy'n gweithio gartref. Rydym yn hyfforddi arolygwyr ychwanegol, arolygwyr cymheiriaid (sy'n gweithio mewn addysg a hyfforddiant ar hyn o bryd), arolygwyr partneriaid gwella awdurdodau lleol, arolygwyr lleyg ac enwebeion (sy'n gweithredu fel cynrychiolydd y darparwr) i weithio'n rhan o dimau arolygu.

Rydym hefyd yn cefnogi trefniadau secondiad i mewn ac allan o'n sefydliad, lle bo hynny'n bosibl. Mae ein strwythur sefydliadol ar gael ar ein gwefan.

Mae ein fframwaith llywodraethu o fyrddau, pwyllgorau a grwpiau, gan gynnwys ein fframwaith sicrwydd, yn ein helpu i gyflawni ein hamcanion strategol fel sefydliad effeithlon sy'n cael ei reoli'n dda. Oddi mewn i'r fframwaith, bydd cyfarwyddwyr anweithredol, yn gwasanaethu fel aelodau ac yn cadeirio ein Bwrdd Strategaeth a'n Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, yn parhau i herio a chefnogi'r uwch dîm rheoli.

Rydym yn dra ymwybodol o'n heffaith ar yr amgylchedd ac yn ymrwymo i chwarae ein rhan mewn mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a rheoli gwastraff, trwy ymgymryd â'n gwaith mewn modd sy'n gyfrifol o ran yr amgylchedd ac ymgorffori cynaliadwyedd yng ngwraidd ein gweithrediadau.

Byddwn:

- yn parhau i ddatblygu a gweithredu ein cynllun pontio strategol ar gyfer cyflawni ein fframwaith arolygu newydd, wrth sicrhau ein bod yn cyflawni ein rhwymedigaethau statudol yn ddiogel; caiff y gwaith o gydbwyso heriau sylweddol y ddau o'r rhain ar ein hadnoddau cyfyngedig ei fonitro'n ofalus gan ein Gweithrediaeth
- yn buddsoddi yn nysgu a datblygiad ein staff gan eu galluogi i wella eu medrau a'u perfformiad yn barhaus a symud ymlaen yn eu gyrfaoedd; mae ein strategaeth pobl yn ceisio cwmpasu'r ffordd yr awn i'r afael â hyn gyda'n gweithlu, gan gynnwys ein hymagwedd at gynllunio ar gyfer olyniaeth
- yn darparu amgylchedd symbylol, boddhaus a chynhwysol sy'n hybu iechyd, sy'n dathlu amrywiaeth ac yn denu pobl wych i adeiladu gweithlu amrywiol

(strategaeth pobl)
- yn ymgysylltu â'n staff i archwilio'r materion a gweithredu ar ganlyniadau Arolwg Pobl 2022 (strategaeth pobl)
- yn sicrhau'n benodol bod ein cynllun ar gyfer dysgu a datblygiad proffesiynol i'n harolygwyr mewnol ac allanol yn canolbwyntio ar gefnogi diwygio'r cwricwlwm, addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ac ADY a hunanwerthuso ar gyfer gwella
- yn moderneiddio'r ffordd rydym yn gweithio ymhellach er mwyn ymateb i bwysau gweithredol cyfnewidiol a gofynion busnes sy'n dod i'r amlwg; byddwn yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o'n systemau TG i wella ein seilwaith ac integreiddio ein systemau; byddwn yn optimeiddio prosesau busnes trwy ymgorffori technolegau newydd a phresennol mewn ffyrdd newydd ac arloesol, gan fanteisio ar welliannau i gyflawni arbedion effeithlonrwydd gweithredol a gwella perfformiad; bydd ein strategaeth trawsnewid digidol yn amlinellu sut rydym yn bwriadu cyflawni hyn
- yn datblygu system rheoli adnoddau ystwyth ac ymatebol sy'n defnyddio technolegau ac arferion cyfoes i sicrhau y caiff adnoddau priodol eu defnyddio'n effeithlon, a fydd yn ein galluogi i gyflawni ein hamcanion strategol yn effeithiol
- yn gwella ein systemau rheoli gwybodaeth ac yn ymestyn ein defnydd o blatfformau gwybodaeth busnes i ddarparu data a gwybodaeth gywir a dibynadwy ar draws y sefydliad, gan helpu cydweithwyr i wneud penderfyniadau gwybodus ac amserol i wella gweithrediadau a darparu gwerth cynyddol i'n holl randdeiliaid
- yn parhau i weithio â chydweithwyr ar draws Llywodraeth Cymru a thrydydd partïon eraill i nodi cyfleoedd i ddefnyddio ein gwybodaeth gyfunol i ddatblygu a rhannu arfer orau
- yn parhau i fodloni ein cyfrifoldebau statudol a gweithgareddau corfforaethol allweddol, gan gynnwys cydraddoldeb ac amrywiaeth, safonau'r Gymraeg a chynaliadwyedd

Mae'r adran amdanom ni ar ein gwefan yn rhoi esboniad pellach o'r gwaith rydym yn ei wneud a sut rydym yn gwneud y gwaith hwnnw.



## Ein cyllideb

Bydd ein cyllideb fynegol tair blynedd, yn hytrach na chyllideb un flwyddyn, yn caniatáu ar gyfer cynllunio adnoddau yn y tymor hwy. Gweler isod.

Roedd blwyddyn ariannol 2022-2023 yn heriol i'r sectorau preifat a chyhoeddus, fel ei gilydd. Arweiniodd ffactorau byd-eang, fel y rhyfel parhaus yn Wcráin (ac mae'n parhau i sbarduno), at gynnydd mewn costau llawer o nwyddau a gwasanaethau i ddefnyddwyr, endidau preifat a chyrff cyhoeddus yn y DU, fel Estyn. O ganlyniad, ni fyddai ein cyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-2023 wedi darparu adnoddau digonol i ni gyflawni ein rhwymedigaethau statudol. Felly, yn dilyn trafodaethau â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru, cymeradwyodd y Gweinidog gyllid ychwanegol o hyd at £540,000 i Estyn i fodloni'r costau gweithredu cynyddol hyn.

Er y disgwylir i chwyddiant ddisgyn yn ystod blwyddyn ariannol 2023-2024, credwn y bydd y gyllideb refeniw fynegol a roddwyd i ni ym mis Mawrth 2022, sef £13.923m, yn annigonol. Er mwyn cydnabod y sefyllfa ariannol barhaus a phwysigrwydd ein gwaith, mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu ein cyllid £1.6m ar gyfer 2023-2024 ac £870k ar gyfer 2024-2025.

Fel y nodwyd mewn rhannau eraill o'r cynllun hwn, rydym yn adolygu ein systemau a'n prosesau mewnol ac yn llunio fframwaith diwygiedig ar gyfer cylch arolygu 2024-2030.

| Blwyddyn ariannol (Ebrill – Mawrth) | Cyllid craidd ar gyfer costau rhedeg £m | Cyllid ychwanegol gan yr Adran Addysg £m | Cyfanswm cyllid ar gyfer costau rhedeg £m | Dibrisiant £m | Cyllid cyfalaf £m |
|---|---|---|---|---|---|
| 2023-2024 | £11.023 | £4.500 | £15.523 | £0.200 | £0.250 |
| 2024-2025 (mynegol) | £11.023 | £4.870 | £15.893 | £0.200 | £0.250 |

## Monitro ein perfformiad




Caiff ein cynllun blynyddol ei lunio bob blwyddyn ac, wedi hynny, rydym yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol a chyfrifon, sy'n esbonio cynnydd o ran cyflawni ein cynllun blynyddol ac yn darparu set lawn o'n cyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Byddwn yn defnyddio cyfuniad o ddulliau meintiol ac ansoddol i fesur, adrodd a myfyrio ar ein perfformiad. Mae hyn yn cynnwys adroddiadau rheolaidd i'n Bwrdd Gweithredol, ein Grŵp Rheoli Strategol a'n Bwrdd Strategaeth ar gynnydd a wnaed tuag at gyflawni ein hamcanion strategol a'n dangosyddion perfformiad allweddol. Bydd hefyd yn cynnwys adroddiadau archwilio mewnol i'n Bwrdd Gweithredol, ein Grŵp Rheoli Strategol a'n Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Rydym wedi nodi set o ddangosyddion perfformiad allweddol lefel uchel a fydd yn ein helpu i fesur cynnydd tuag at gyflawni ein hamcanion strategol. Caiff y rhain eu hategu gan set ehangach o ddangosyddion rheoli gweithredol yr adroddir arnynt yn fewnol, yr adroddir ar lawer ohonynt yn allanol hefyd yn ein hadroddiad blynyddol a chyfrifon.

**Dangosyddion perfformiad allweddol:**

| Rhif y DP | Amcan strategol (AS) | Mesur perfformiad | Dangosyddion perfformiad allweddol | Targed 2023-2024 |
|---|---|---|---|---|
| 1 | AS1 | Sicrhau atebolrwydd cyhoeddus i ddefnyddwyr ein gwasanaethau (a chynyddu gallu o ran darparu addysg a hyfforddiant yng Nghymru) | a) Canran yr arolygiadau a gwblhawyd a oedd yn bodloni'r gweithgarwch arolygu cynlluniedig a amlinellwyd yn ein cynllun blynyddol | 97% |
| | | | b) Lleoli arolygwyr cymheiriaid ac arolygwyr lleyg mewn arolygiadau yn unol â safonau Estyn | O leiaf 1 arolygydd lleyg ym mhob arolygiad ac arolygydd lleyg ym mhob arolygiad ysgol |
| 2 | AS1 / AS3 | Sicrhau bod profiad darparwyr o arolygu yn broses gadarnhaol sy'n hyrwyddo gwelliant | Canran y darparwyr sy'n nodi eu boddhad ar ôl arolygiad:<br>a. Bod arolygwyr wedi rhoi adborth defnyddiol yn ystod yr arolygiad trwy nodi cryfderau perthnasol a meysydd i'w gwella (Holiadur ôl-arolygiad (HOA1 – C15) | 100% |
| | | | b. O ran dibynadwyedd ac annibyniaeth ein barnau (HOA2 – C22) | 100% |
| | | | c. Bod yr arolygiad wedi'u helpu i gynllunio ar gyfer gwella (HOA2 – C20) | 100% |
| 3 | AS1 / AS3 | Datblygu ein trefniadau gweithio â'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, sydd â'r nod o hyrwyddo mwy o gydlyniant a chydweithio ar draws darpariaeth ôl-16 | Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ac Estyn sy'n amlinellu ein priod rolau | 31 Mawrth 2024 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4 | AS2 / AS3 | Sicrhau bod ein cyhoeddiadau allweddol yn addysgiadol ac yn ddefnyddiol, yn sbarduno gwelliant yn y sector addysg a hyfforddiant (ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu polisi cenedlaethol) | Cyrraedd ein cyhoeddiadau allweddol i'n cynulleidfa:<br>a) Nifer y lawrlwythiadau ar gyfer ein holl gyhoeddiadau allweddol a deunyddiau cysylltiedig yn ystod y cyfnod adrodd | a) 40,000 bob blwyddyn |
| | | | b) Canran y bobl sy'n clicio drwodd i ddarllen ein cyhoeddiadau allweddol o ffynonellau amrywiol (gan gynnwys peiriannau chwilio, traffig uniongyrchol, dolenni cyfeiriedig o wefannau eraill, e-dafliadau a'n postiadau ar gyfryngau cymdeithasol) | b) 2.5%<br>(safon y diwydiant ar gyfer addysg yw 2.2%*) |
| | | | c) Effaith ein cyhoeddiadau allweddol ar ein cynulleidfa – ceisio llunio adroddiadau sy'n addysgiadol, yn ddifyr ac yn ddefnyddiol | c) Targed i'w ddatblygu ar gyfer 2024-2025 ar ôl blwyddyn o'i roi ar waith |
| 5 | Sut rydym yn cyflawni | Creu a chynnal gweithlu ymgysylltiedig a medrus | a) Sgôr mynegai ymgysylltiad Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil | Uwchlaw'r chwartel uchaf |
| | | | b) Datblygu strategaeth dysgu a datblygu ar gyfer pob cydweithiwr | 31 Mawrth 2024 |

**Targed DP 4*** Mae Speero (a elwir hefyd yn CXL) yn asiantaeth fyd-eang sy'n canolbwyntio ar wella profiad cwsmeriaid drwy ddata ac arbrofi. Meincnodau ar gyfer cyfraddau clicio drwodd

# Atodiad 1: Gweithgarwch arolygu cynlluniedig 2023-2024

| **Gweithgarwch arolygu cynlluniedig gan Arolygwyr Ei Fawrhydi (AEF) ac arolygwyr annibynnol 2023-2024 (blwyddyn ariannol)** | |
|---|---|
| **Uned arolygu** | **Nifer cynlluniedig yr arolygiadau sy'n arwain at adroddiadau(1) (Blynyddol)** |
| Lleoliadau meithrin nas cynhelir | 95(2) |
| Ysgolion cynradd | 262 |
| Ysgolion uwchradd | 33 |
| Ysgolion pob oed | 4 |
| Ysgolion arbennig a gynhelir | 11 |
| Unedau cyfeirio disgyblion | 2 |
| Ysgolion annibynnol ac ysgolion arbennig annibynnol | 14 |
| Colegau arbenigol annibynnol | 4 |
| Gwasanaethau addysg llywodraeth leol | 4 |
| Sefydliadau addysg bellach | 0 |
| Addysg gychwynnol athrawon (AGA) | 2(3) |
| Darparwyr dysgu yn y gwaith (DYYG) | 4 |
| Dysgu oedolion yn y gymuned (DOG) | 6 |
| Cymraeg i Oedolion (CiO) | 3 |
| Arolygiadau gwaith ieuenctid | 1 |
| **Cyfanswm** | 445 |

(1) Yn seiliedig ar wybodaeth ar 21/03/2023.
(2) Caiff yr arolygiadau hyn eu cyflawni ar y cyd ag AGC.
(3) Mae arolygiadau o AGA yn dechrau yn nhymor yr hydref ac yn rhychwantu'r flwyddyn academaidd gyfan. Mae'r nifer hon yn cyfeirio at arolygiadau'n dechrau yn nhymor yr hydref 2023.

**Rydym yn croesawu adborth a sylwadau am y Cynllun Blynyddol hwn, y gellir eu hanfon atom drwy'r e-bost i adborth@estyn.llyw.cymru**

| |
|---|
| **Mae'r Cynllun Blynyddol hwn wedi'i gyflwyno at sylw Prif Weinidog Senedd Cymru ac wedi'i gymeradwyo ganddo.** |